



Cymunedau am Waith Astudiaeth Achos 1 - Ms G

“Allaf fi ddim diolch digon ichi, fe wnes i ddod atoch ac fe wnaethoch chi roi popeth yn ei le imi a nawr rwy'n gweithio ac yn gwneud rhywbeth roeddwn i wastad eisiau ei wneud”

Roedd Ms G wedi bod yn ddi-waith ers 4 blynedd ers dechrau teulu a'i nod hirdymor oedd gweithio mewn swydd weinyddol a fyddai'n ei chynnal hi a'i theulu i'r dyfodol. Roedd Ms G yn chwilio am gefnogaeth a mentora i feithrin hyder a rhywun i gredu ynddi a'i helpu i gyrraedd ei nodau. Pan drodd at y cynllun Cymunedau am Waith drwy ymgysylltiad â'r ysgol roedd hi'n awyddus iawn i dderbyn y gefnogaeth a'r mentora a oedd ar gael.

Cysylltodd Ms G â'i mentor yn rheolaidd, gan ddefnyddio e-bost, negeseuon testunau a galwadau ffôn ac roedd yn gyflym ac yn awyddus i symud ymlaen i'r farchnad lafur. Roedd yn amlwg o'r dechrau bod Ms G yn gyfranogwr cydwybodol a gweithgar a oedd yn gallu datblygu ei hun, a gyda chefnogaeth ac anogaeth gan ei mentor byddai'n cael y canlyniad yr oedd yn ei ddymuno. Tra'n gweithio gyda'i mentor, dechreuodd Ms G weithio tuag at gymhwyster cyfrifiaduron gyda'r nos, cwrs y credai y byddai'n ei helpu i wella ei sgiliau ar gyfer swydd weinyddol. Hefyd, cafodd Ms G hyfforddiant Cymorth Cyntaf Argyfwng fel cymhwyster cysylltiedig â gwaith a oedd yn drosglwyddadwy i unrhyw fath o waith. Cyfarfu â'i mentor yn rheolaidd a derbyniodd gefnogaeth barhaus i fagu ei hyder i chwilio am swydd a gwneud cais am swyddi.

Ceisiwyd cyfle i Ms G gael profiad gwaith gwirfoddol gyda'r GIG yn Ysbyty'r Tywysog Siarl am gyfnod o 8 wythnos mewn rôl weinyddol. Yn fuan iawn roedd Ms G yn gwneud yn ardderchog yn y rôl hon a theimlai'n hyderus mai dyma'r llwybr gyrfa iawn iddi hi. Cadwai'r mentor mewn cysylltiad rheolaidd â Ms G drwy gyfrwng negeseuon testun ac e-bost bob dydd i sicrhau ei bod yn cael digon o gefnogaeth. 4 wythnos i mewn i'w lleoliad gwirfoddoli, cododd cyfle iddi gael secondiad yn yr adran lle'r oedd yn gwirfoddoli a, gyda chefnogaeth gan ei mentor, cwblhaodd Ms G y ffurflen gais a chafodd ei chyfweld am y rôl. Cynigiwyd swydd amser llawn i Ms G gyda'r GIG ac roedd yn eithriadol o falch o'r cynnig o swydd.

Arfer da

Cynigiai'r mentor ei gefnogaeth bob dydd drwy neges destun ac e-bost ac roedd hynny'n gweithio'n dda iawn. Roedd y berthynas gyda'r cyfranogwr yn broffesiynol ond hefyd yn gyfeillgar ac arweiniodd hyn at beirianwaith cefnogi a chyfathrebu ardderchog. Rhoddai hyn anogaeth i'r cyfranogwr a theimlai fod ganddi rywun ar ei hochr. Cynhaliwyd sesiynau lawer o fentora wyneb wrth wyneb yn ogystal â chyswllt ychwanegol dros y ffôn, negeseuon testun ac e-bost i feithrin hyder a chefnogi cyfranogwr economaidd anweithgar oddi ar fudd-daliadau ac yn ôl i waith.